

Yn garedig gan Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Hawlfraint y Goron

# Ydych chi wedi gweld y pryfyn hwn?

Weithiau, gelwir y gacynen felyngoes yn gacynen Asiaidd. Mae'n fath o bryfyn sydd ddim yn frodorol i'r DU. Mae'n bwyta gwenyn mêl a pheillwyr eraill. Dyma pam rydyn ni eisiau ei atal rhag lledaenu.

Mae nyth marw y gacynen felyngoes wedi'i ddarganfod ger Wrecsam. Mae angen i chi roi gwybod i ni ar unwaith os ydych chi'n gweld y pryfyn hwn fel y gallwn ei atal rhag lledaenu.

**Mae'n edrych fel hyn.**

**Mae'r gacynen felyngoes ychydig yn llai na'r gacynen Ewropeaidd. Dyma sut mae'n edrych o'u cymharu â rhai pryfed eraill.**


Cacynen felyngoes | Horned Ewropeaidd | Gwenynen feirch ganolwedd | Cacynen ddynwaredol | Gwenynen y coed

## Lle gallech ei gweld.

Mae'r gacynen (neu'r horned) felyngoes yn mynd o gwmpas ei phethau o fis Chwefror i fis Tachwedd, ond rydych chi'n fwyaf tebygol o'i gweld o fis Gorffennaf ymlaen. Mae'n hoffi:

- **Planhigion blodeuol** (yn enwedig iorwg/eiddew yn yr hydref)
- **Cychod neu nythod gwenyn**
- **Ffrwythau sy'n pydru** fel afalau wedi cwympo

Nid yw fel arfer yn ymosodol, ond gall eich pigo os bydd hi'n teimlo bod ei nyth mewn perygl. Felly **peidiwch byth â mynd yn agos at nyth.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53941.

## Sut i roi gwybod i ni os ydych chi wedi gweld un.

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi gweld cacynen felyngoes, rhowch wybod i ni.

- Ar Ap yr **Asian Hornet Watch** (am ddim ar gyfer Android ac iPhone), neu
- drwy ddefnyddio'r ffurflen ar wefan BeeBase.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys **llun** a **lleoliad** ble weloch chi'r gacynen.

Neu gallwch sganio'r cod QR hwn:

I gael rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i dynnu llun ohoni, ewch i **llyw.cymru/y-gacynen-felyngoes**